


CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom am 7y.h. ar nos Fawrth Mai 11 2021

Presennol :- Cyngorwyr :- Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Selwyn Griffiths, Gwilym Jones, Ian Jones, Bethan Rees Jones, Richard Williams, Aled Griffith, Simon Brooks, Alwyn Gruffydd, Carol Hayes, Nia Jeffreys, Marian Roberts (Clerc)

9.5.21. Ymddiheuriadau :- Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Stuart Nashir-Hallard, Cyng Jason Humphreys

10.5.21 Adroddiad y Cadeirydd.

Dechreuodd y Cadeirydd newydd, Cyng Llywelyn Rhys, trwy ddiolch i'r holl Gynghorwyr am eu hamser a'u gwasanaeth a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen i gael cyd-weithio â hwynt yn ystod ei dymor fel Cadeirydd. Eglurodd pa mor bwysig ydi cyd-weithio'n drefnus a'r angen am gonsensws ymhlith yr aelodau. Roedd yn gofyn yn garedig i'r aelodau ymddwyn yn gyfeillgar yn y cyfarfodydd a thu allan i'r cyfarfodydd am ei bod hi'n bwysig ymddwyn a gweithredu fel un corff.

Mynegodd fel yr oedd yn teimlo ei bod hi'n fraint cael ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Tref ei dref enedigol. Wedi cyfnodau ymhell o Borthmadog teimlai fod ei wreiddiau yn ddwfn ym Mro Madog. Roedd wedi ymgartrefu yn ôl yma ers 2014 er mwyn cael mwynhau'r ardal a'i amgylchedd ac er mwyn magu teulu. Roedd yn falch iawn fod y cyfle wedi dod iddo gael symud yn ôl i'w ardal enedigol.

Yn Gynghorydd Tref ers 2017 teimlai ei fod isio talu yn ôl i'r gymuned. Mae'r un problemau yn bodoli yn yr ardal ers ei gyfnod yn tyfu i fyny yma yn yr 80au – sef yr economi; diffyg cyfleoedd; diffyg tai fforddiadwy; isadeiledd lleol. Mae angen gwarchod yr rhain wrth eu gwasanaethu a thrwy gryfhau'r gymuned o'r gwaelod i fyny.

Dywedodd fod ganddo ddrws agored i bawb ac y byddai'n croesawu clywed am unrhyw newyddion lleol er mwyn rhannu ymysg y gymuned.

11.5.21. Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-

➤ Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Ebrill 13 2021

Penderfynwyd :- derbyn y Cofnodion yn gywir yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Carol Hayes yn eilio

➤ Cyfarfod Pwyllgor Cyllid ac Eiddo Ebrill 27 2021

Penderfynwyd :- derbyn y Cofnodion yn gywir yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Ian Jones yn eilio

12.5.21 Cyfle i'r Cyngorwyr ddatgan diddordeb.

Dim datganiad.

13.5.21 Materion i'w dwyn gerbron :-

14.5.21 Cynnig Cyng Stuart Nashir-Hallard :- ein bod yn cofnodi fideo / recordiad llais o gyfarfodydd ar gyfer cywirdeb cofnodi cofnodion a thryloywder.

Penderfynwyd :- yn absenoldeb Cyng Stuart Nashir-Hallard gohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf ar Fehefin 8 2021.

15.5.21 2 Sedd Wag – gweler Gohebiaeth 11 ac 13

Penderfynwyd :- Derbyn y ddau ymgeisydd i'w cyfethol fel Cyngorwyr Tref fel a ganlyn :-

Malcolm Humphreys fel Cynghorydd Ward Gorllewin a Linda Wyn Roberts fel Cynghorydd Ward Dwyreiniol yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Ian Jones yn eilio.

Dymunodd y Cyng Carol Hayes gofnodi ei bodlonrwydd o gyfethol merch i'r Cyngor Tref.

16.5.21 Hebogwr – cadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Cyllid 27.4.21

Penderfynwyd:- cytuno fel Cyngor Llawn

17.5.21 Gwefan - cadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Cyllid 27.4.21

Penderfynwyd:- cytuno fel Cyngor Llawn

18.5.21 Cyflog y Clerc - cadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Cyllid 27.4.21

Penderfynwyd:- cytuno fel Cyngor Llawn

19.5.21 Glanhau lloches bws Morfa Bychan - cadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Eiddo 27.4.21

Penderfynwyd:- cytuno fel Cyngor Llawn

20.5.21 Gliniadur y Cyngor Tref - cadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Cyllid 27.4.21

Penderfynwyd:- cytuno fel Cyngor Llawn

21.5.21 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Rhaglen Mehefin 8 2021, Mai 29 2021 (Rheolau Sefydlog 8.1 “ o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor”.)

22.5.21. Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

Gohebiaeth :

23.5.21 Awen Bayley- Cyngor Gwynedd, Goleuadau'r Harbwr – wedi ei basio 'mlaen o gyfarfod 13.4.21

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a threfnu bod Cyng Gwilym Jones yn dod i'r cyfarfod yn lle Cyng Llywelyn Rhys.

24.5.21 Nation.Cymru, Swyddi'r Urdd

Penderfynwyd :- aros efo penderfyniad gwreiddiol 177.4.21 a'r Clerc i ysgrifennu llythyr i Sian Lewis yn llongyfarch yr Urdd am greu swyddi newydd ac i fynegi parodrwydd y Cyngor Tref i gydweithio â nhw yn y dyfodol, yn ôl cynnig Cyng Simon Brooks, Cyng Richard Williams yn eilio.

25.5.21 Mel ab Owain, Ymateb am benodi Cynrychiolydd Llywodraethwyr Ysgol Eifion Wyn

Penderfynwyd :- pasio'r mater ymlaen i gyfarfod Mehefin 8 er mwyn i'r Cyngorwyr newydd gael cynnig yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths.

26.5.21 Rhian Wyn Williams, Lloches bws Tesco

Derbyniwyd cynnig Cyng Aled Griffith i edrych i mewn i'r gôst o symud y lloches bws i Aldi.

27.5.21 Lois Jones, Llythyr diolch Cylch Meithrin Porthmadog

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

28.5.21 Mel ab Owain, Ymateb am benodi Cyngorwyr i Seddi Gwag

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

29.5.21 Adran Amgylchedd Gwynedd, Cyfyngiadau parcio Porthmadog a Morfa Bychan 7(a) 7(b), Adran Amgylchedd Gwynedd, Mapiau i gydfynd â'r uchod

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a'r Clerc i ymateb drwy ofyn iddynt ymestyn y llinellau melyn hyd at y lôn fawr yn llun 7(b) a lleihau'r llefydd parcio yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Richard Williams yn eilio.

30.5.21 Dilwyn Jones, Gwyllanod

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

31.5.21 Adran Amgylchedd Gwynedd, Gor-yrru i fyny Bank Place

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth. Bydd Cyng Selwyn Griffiths yn cyfarfod Cyng Ian Jones i drafod y mater ac i adrodd yn ôl. Maent am fonitro'r sefyllfa cyn dod a'r mater yn ôl at y bwrdd.

32.5.21 Cyng Richard Williams, Nation.Cymru – Tai

Cytunwyd y byddai Cyng Richard Williams yn rhoi'r mater fel cynnig i'w drafod ar raglen y cyfarfod nesaf ar Fehefin 8 yn hytrach na phasio ebyst Nation.Cymru ymlaen i'r Clerc.

33.5.21 Sedd Wag, Cais Malcolm Humphreys

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth – wedi trafod y mater yn 15.5.21

34.5.21 Sion Owen – Archwilio Cymru, Gwahoddiad i Weminar fyw ar 20/5/21

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

35.5.21 Sedd Wag, Cais Linda Wyn Roberts

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth - wedi trafod y mater yn 15.5.21

36.5.21. Materion Ariannol :

Derbyniadau :

Cyngor Gwynedd	Grant Canol Trefi - Hysbysfwrdd	£ 2,180.40
Cyngor Gwynedd	Taliad cyntaf Praesept 2021-2022	£ 31,290.72
HSBC	Llog Banc Ebrill 2021	£ 00.29

Biliau i'w talu :

Audurdodwyd y taliadau canlynol :-

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Ebrill 2021	£ 48.75
2	Marian Roberts	Inc i'r printer	£ 17.35
3	Marian Roberts	Costau teithio Ebrill 2021	£ 8.33
4	Marian Roberts	Cyflog Clerc Ebrill 2021 (yn cynnwys ad-daliad cyflog Hydref 2020 i Mawrth 2021 o £124.80)	£ 719.68
5	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth incwm cyflog Clerc Ebrill 2021	£ 179.92
6	Marian Roberts	Lwfans Blynyddol rhedeg swyddfa	£ 300.00
7	BHIB	Yswiriant Blynyddol	£ 1,610.66
8	Apêl Capel Bethania, Pistyll	Cyfraniad 198.4.21	£ 50.00
9	Greenbarnes Ltd	Hysbysfwrdd	£ 2,316.48

(Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

37.5.21 Ceisiadau Cynllunio

1. Rhif Cais.: C21/0308/44/CR

Lleoliad: 10 Pen Y Cei, Porthmadog, LL49 9AT

Bwriad: cysylltu cyflenwad nwy i'r eiddo

PENDERFYNIAD – DIM GWRTHWYNEBIAD

2. Cais Am Drwydded eiddo:

Cennin a'r Ddraig, Central Buildings, 3 Snowdon Street, Porthmadog, LL49 9BT

PENDERFYNIAD – DIM GWRTHWYNEBIAD

3. Rhif Cais .: C21/0186/44/HY

Lleoliad: 11-12 Britannia Terrace , Porthmadog, LL49 9NB

Bwriad / Codi arwyddion wedi'u goleuo

PENDERFYNIAD – GWRTHWYNEBIAD oherwydd fod yr arwyddion wedi eu goleuo a bod yr adeilad yn terfynu â strwythur hanesyddol Gradd 2 Rhestredig sef Y Cob.

4. Rhif Cais .: C21/0105/44/LL

Lleoliad : Garth Terrace Garth Road, Porthmadog, LL49 9BG

Bwriad: Adeiladu tŷ annedd unllawr tair ystafell wely

PENDERFYNIAD – GWRTHOD Y CAIS AR SAIL GWRTHWYNEBIAD CRYF AC UNFRYDOL oherwydd y rhesymau canlynol :-

- Nid yw'n gweddu i'r ardal hanesyddol a'r tai cyfagos.
- Mae o'n or-ddatblygiad.
- Mae o allan o gymeriad efo'r tai cyfagos.
- Byddal angen "underpinio" a fyddai'n tansellio sylfeini ac felly'n peryglu tai cyfagos.
- Nid oes mynediad i'r safle ar wahân i'r Grisiau Mawr sydd dan berchnogaeth CADW.
- Nid oes mynediad i wasanaethau carthffosiaeth a thrydan.
- Nid oes mynediad i wasanaethau brys.
- Mae "Japanese Knotweed" yn bla ar y safle a byddai angen tyllu'r ardal yn llwyr ac yn ddyfn i gael gwared ohono.

Penderfynwyd :-

- Oherwydd fod teimladau mor gryf wedi cael eu mynegi ynglyn â'r cais yma teimlwyd y dylai'r Cadeirydd gysylltu efo'r Cambrian News er mwyn hysbysu'r cyhoedd am wrthwynebiad llwyr y Cyngor Tref i'r Cais Cynllunio yma ac i'r Cambrian News gynnwys llun i gydfynd â'r stori.
- Bydd y Clerc yn cysylltu efo CADW i'w hysbysu am y cais ac am wrthwynebiad y Cyngor Tref.
- Bydd y Clerc yn cysylltu efo Mr Northover a Mr Shirres i'w hysbysu am wrthwynebiad y Cyngor Tref i'r cais ac i'w hannog i gysylltu gydag Adran Cynllunio, Gwynedd i fynegi eu barn ar y mater.

38.5.21 Dywedodd y Clerc fod y Cambrian News wedi cynnwys stori yn eu rhifyn 6.5.2021 am y ddau Ddiffibriliwr newydd ym Meithrinfa'r Hen Ysgol ac yn Lidl. Roedd yn hysbysu'r Cyngor fod y trydanwr Gareth Griffiths wedi rhoi ei amser a'i wasanaeth am ddim i osod y Diffibriliwr yn y Feithrinfa.

Penderfynwyd :- y byddai'r Clerc yn ysgrifennu llythyr o ddiolch iddo am ei wasanaeth i'r Cyngor Tref.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50y.h.

MARIAN ROBERTS

MAI 16 2021